| Dim ond gan 'Grwpiau sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (risg uchel)' a 'Grwpiau sy'n agored i niwed yn glinigol (risg canolig)' y bydd y Brifysgol yn ystyried ceisiadau i 'Astudio Gartref'. | Request to 'Study from Home' will only be considered by 'Extremely clinical vulnerable groups (high risk)', and, 'Clinically vulnerable groups (moderate risk)'. |
|---|---|
| Dyma'r grwpiau sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (risg uchel): -<br><br>• Pobl sydd wedi cael trawsblaniad organ solet<br>• Pobl â mathau penodol o ganser:<br>• Pobl â chanser sy'n derbyn triniaeth gemotherapi weithredol neu radiotherapi radical ar gyfer canser yr ysgyfaint<br>• Pobl â chanser y gwaed neu fêr esgyrn megis lewcemia, lymffoma neu myeloma, ni waeth ym mha gyfnod o'u triniaeth y maent<br>• Pobl sy'n cael imiwnotherapi neu driniaethau eraill parhaus â gwrthgyrff ar gyfer canser<br>• Pobl sy'n cael triniaethau canser eraill wedi'u targedu a all effeithio ar y system imiwnedd, megis atalyddion cinasau proteinau neu atalyddion PARP<br>• Pobl sydd wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn neu bôn-gelloedd yn y 6 mis diwethaf, neu bobl sy'n dal i gymryd cyffuriau atal imiwnedd<br>• Pobl â chyflyrau anadlol difrifol gan gynnwys pob ffeibrosis systig, asthma difrifol a chlefyd rhwystrol cronig difrifol yr ysgyfaint (COPD)<br>• Pobl â chlefyd difrifol mewn un organ (e.e. clefyd yr iau/afu, clefyd cardiofasgiwlaidd, clefyd arennol, neu glefyd niwrolegol).<br>• Pobl â chlefydau anghyffredin a gwallau cynhenid mewn metabolaeth sy'n cynyddu'n sylweddol y risg o heintiau (fel diffyg imiwnedd cyfun difrifol (SCID), clefyd y crymangelloedd mewn unigolion homosygaidd).<br>• Pobl ar therapïau atal imiwnedd sy'n ddigon i gynyddu'r risg o haint yn sylweddol.<br>• Merched beichiog sydd â graddau sylweddol o glefyd ar y galon, boed yn glefyd cynhenid neu fel arall.<br>• Plant hyd at 18 oed sydd â graddau sylweddol o glefyd ar y galon, boed yn glefyd cynhenid neu fel arall. | Extremely clinical vulnerable groups (high risk) are: -<br><br>• Solid organ transplant recipients<br>• People with specific cancers:<br>• People with cancer who are undergoing active chemotherapy or radical radiotherapy for lung cancer<br>• People with cancers of the blood or bone marrow such as leukaemia, lymphoma or myeloma who are at any stage of treatment<br>• People having immunotherapy or other continuing antibody treatments for cancer<br>• People having other targeted cancer treatments which can affect the immune system, such as protein kinase inhibitors or PARP inhibitors<br>• People who have had bone marrow or stem cell transplants in the last 6 months, or who are still taking immunosuppression drugs<br>• People with severe respiratory conditions including all cystic fibrosis, severe asthma and severe Chronic Obstructive Pulmonary Disease (COPD)<br>• People with severe single organ disease (e.g. Liver, Cardio, Renal, Neurological).<br>• People with rare diseases and inborn errors of metabolism that significantly increase the risk of infections (such as Severe Combined Immunodeficiency (SCID), homozygous sickle cell).<br>• People on immunosuppression therapies sufficient to significantly increase risk of infection.<br>• Pregnant women with significant heart disease, congenital or acquired.<br>• Children up to the age of 18 with significant heart disease, congenital or acquired. |
| Dyma'r grwpiau sy'n agored i niwed yn glinigol (risg canolig): -<br><br>• pobl sy'n 70 oed neu'n hŷn<br>• pobl sydd â chyflwr ar yr ysgyfaint nad yw'n ddifrifol (megis asthma, COPD, emffysema neu froncitis)<br>• pobl sydd â chlefyd y galon (megis methiant y galon)<br>• pobl sydd â diabetes<br>• pobl sydd â chlefyd cronig yn yr arennau<br>• pobl sydd â chlefyd yr iau/afu (megis hepatitis) | Clinically vulnerable groups (moderate risk) are: -<br><br>• are 70 or older<br>• have a lung condition that's not severe (such as asthma, COPD, emphysema or bronchitis)<br>• have heart disease (such as heart failure)<br>• have diabetes<br>• have chronic kidney disease<br>• have liver disease (such as hepatitis)<br>• have a condition affecting the brain or nerves (such as Parkinson's disease, motor neurone disease, multiple sclerosis or cerebral palsy) |

| | |
|---|---|
| • pobl sydd â chyflwr sy'n effeithio ar yr ymennydd neu'r nerfau (megis clefyd Parkinson, clefyd niwronau motor, sglerosis ymledol neu barlys yr ymennydd)<br>• pobl sydd â chyflwr sy'n golygu bod eu risg o ddal heintiau yn sylweddol<br>• pobl sy'n cymryd meddyginiaeth a all effeithio ar eu system imiwnedd (megis triniaeth steroid dos isel)<br>• pobl sy'n ordew iawn (BMI sy'n 40 neu'n uwch)<br>• merched beichiog. | • have a condition that means they have a high risk of getting infections<br>• are taking medicine that can affect the immune system (such as low doses of steroids)<br>• are very obese (a BMI of 40 or above)<br>• are pregnant |